



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## HAWLIAD I ATEB RHYBUDD I DRAFOD TELERAU A GYFLWYNWYD AR 20

|   |  |
|---|--|
| 1. Enw a chyfeiriad yr hawliwr  |  |
| 2. Disgrifiad cryno o'r eiddo a gynhwysir yn y Rhybudd i Draffod Telerau ac o'r defnydd a wneir ohono a Rhif Cofrestru Tir os yw'r tir wedi'i gofrestru.<br><br><i>Noder - Os nad oes gan yr hawliwr hawl ar yr holl dir a ddangosir ar y cynllun, nodwch pa fuddiant sydd ganddo yn y tir.</i>   |  |
| 3. Enw a chyfeiriad y person sy'n cadw'r dogfennau teitl  |  |
| 4. Rhif ffôn  |  |
| 5. Y math o fuddiant sydd gan yr hawliwr yn yr eiddo:<br><br>Rhydd-ddaliad, lesddaliad neu denantiaeth flynyddol neu fuddiant arall.<br>(Nodwch a fu gynt yn gopi-ddaliad.)<br><br>Os yw'n rhydd-ddeiliad, nodwch ai hawl absoliwt sydd ganddo neu hawl arall e.e. fel ymddiriedolwr neu ysgutor.<br><br>Os yw'n lesddeiliad, nodwch enw a chyfeiriad y landlord, a chyflwynwch gopi o'r les ynghyd ag unrhyw weithred amrywio. Oni ellir cyflwyno copi o'r les nodwch y dyddiad dechrau a hyd y les, y rhent sy'n daladwy a rhwymedigaethau eraill y lesddeiliad ac unrhyw delerau perthnasol eraill.<br><br>Nodwch yr alldaliadau sy'n daladwy gan yr hawliwr a nodwch enw'r sawl sy'n talu'r ardrethi a'r dreth gyngor.<br><br>Beth yw hyd y denantiaeth? Os yw'n denantiaeth blwyddyn neu lai, nodwch pryd y dechreuodd y denantiaeth, faint yw'r rhent, sut y mae'n cael ei benderfynu ac unrhyw delerau ac amodau arbennig. |  |

|   |   |
|---|---|
| <p>6. Manylion unrhyw forgeisi neu unrhyw bridiau neu lyffetheiriau eraill sy'n effeithio ar fuddiant yr hawliwr (gan gynnwys pridiannau gwella tir)<br/>Rhowch fanylion:</p> <p>(a) y prif swm sy'n dal yn ddyledus.</p> <p>(b) enw a chyfeiriadau'r morgeiseion.</p> <p>(c) enw a chyfeiriad cyfreithiwr y morgeiseion.</p>   |   |
| <p>7. Manylion materion niweidiol:</p> <p>(a) Unrhyw eithriadau <i>cyfredol</i> i fwynfeydd a mwynau ac unrhyw eithriadau eraill. Os nad perchennog y tir sy'n berchen ar y mwynau, pwy sydd yn berchen arnynt?</p> <p>(b) Hawliau Arglwydd y Faenor i fwynau a hawliau chwaraeon a hawliau eraill ac enwau a chyfeiriadau'r Arglwydd a'r Stiward (os bu'r eiddo gynt yn gopi-ddaliad).</p> <p>(c) Unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus neu breifat a hawliau a breintiau eraill sy'n effeithio ar yr eiddo (e.e. draeniau, pibellau a cheblau).</p> <p>(ch) Unrhyw gyfamodau a chyfyngiadau <i>cyfredol</i> sy'n effeithio ar yr eiddo.</p> <p>(d) Rhywogaethau a warchodir ac os oes arolwg wedi ei gynnal, copi o'r arolwg hwnnw.</p>   |   |
| <p>8. Os yw'r eiddo'n cael ei osod, nodwch:</p> <p>(a) Enw(au) a chyfeiriad(au) y tenantiaid.</p> <p>(b) Cyfanswm yr arwynebedd a osodir i bob tenant.</p> <p>(c) Faint o ddaliad pob tenant yr effeithir arno gan y Rhybudd i Draffod Telerau.</p> <p>(ch) Y rhent a delir gan bob tenant.</p> <p>(d) A yw'r rhent yn cynnwys ardrethi ai peidio.</p> <p>(dd) A yw'r rhent yn cael ei dalu ymlaen llaw neu a yw'n cael ei ôl-dalu.</p> <p>(e) Cyfran y rhent y gellir ei phriodoli i'r tir y bwriedir ei gaffael.</p> <p>(f) Dyddiad dechrau a hyd pob tenantiaeth a manylion y cyfnodau adolygu.</p> <p>(ff) A yw'r denantiaeth yn statudol.</p> <p>(g) Faint o rybudd y mae gofyn ei roi cyn dod â'r denantiaeth i ben.</p> <p>(ng) A ydych yn rhoi caniatâd i'r tenant waredu ei fuddiant yn y tir hwn.</p> <p>(h) A fydd meddiant gwag yn cael ei roi ar ôl cwblhau.</p> | <p><i>Noder – os oes trwyddedau ar gyfer y tir, anfonwch y manylion perthnasol.</i></p> |

|  |   |
|--|---|
| <p>9. Manylion:</p> <p>(a) Adbrynant Blwydd-daliadau'r Degwm neu Renti Ŵd.</p> <p>(b) Rhwymedigaeth i atgyweirio Cangell unrhyw Eglwys.</p> <p>(c) Ardrethi Draenio Tir. Nodwch yr asesiad a'r gyfradd yn y £.</p> <p>(ch) Taliadau rhent blynyddol ac alldaliadau eraill.</p>   | <p><i>Noder – Dylai'r atebion ymwneud yn unig â'r tir yr effeithir arno gan y Rhybudd i Draford Telerau a dylai'r hawliwr awgrymu dosraniadau lle bo angen.</i></p> |
| <p>10. Manylion:</p> <p>(a) Unrhyw Rybuddion gan Awdurdod Cyhoeddus neu Leol sy'n effeithio ar yr eiddo.</p> <p>(b) Unrhyw bridiant neu rwymedigaeth statudol sy'n effeithio ar yr eiddo, e.e. mewn perthynas ag iawndal sy'n fwy nag £20 a dalwyd o ganlyniad i benderfyniad cynllunio <i>neu</i> rwymedigaeth mewn perthynas â gwaith stryd preifat neu mewn perthynas â gwaith cyhoeddus a thir yr effeithir arno sydd wedi'i gofrestru o dan adran 8(4) o Ddeddf Iawndal Tir 1973.</p> <p>(c) Unrhyw hawliad o dan Ran 1 o Ddeddf Iawndal Tir 1973 naill ai mewn perthynas â'r eiddo o dan y Rhybudd i Draford Telerau neu eiddo arall sy'n cael ei ddal gydag ef.</p> |   |
| <p>11. Manylion unrhyw hawl i iawndal sydd eto i'w gasglu am wrthod caniatâd cynllunio neu ei roi'n amodol, ei ddirymu neu ei addasu (Gweler Adran 12 o Ddeddf Iawndal Tir 1961.)</p>  |   |
| <p>12. (a) Manylion unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r eiddo.</p> <p>(b) Noder a oes unrhyw gais wedi'i wneud gan yr hawliwr neu a oes bwriad ganddo i wneud cais o dan adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 a Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, am dystysgrif datblygiad arall priodol.</p>   |   |
| <p>13. Os yw'r eiddo'n fusnes, rhowch fanylion.</p> <p>A yw'r hawliwr wedi ei gofrestru at ddibenion TAW?</p> <p>A yw'r eiddo wedi ei gofrestru at ddibenion TAW?</p>  |   |
| <p>14. Arwynebedd a disgrifiad o dir arall sydd gan yr hawliwr sy'n gyffiniol neu'n gyfagos i'r tir sy'n cael ei gaffael.</p> <p>(Amgawch gynllun o'r holl dir y mae'r hawliwr yn berchen arno yn yr ardal.)</p>   |   |

|  |  |
|--|--|
| <p>15. Manylion yr hawliad:</p> <p>(i) Am werth buddiant yr hawliwr yn y tir sy'n cael ei gymryd, gan gynnwys unrhyw hawddfreintiau.</p> <p>(ii) Am hollti tir arall yr hawliwr neu am gael effaith niweidiol arno.</p> <p>(iii) Am aflonyddwch.</p> <p>(iv) Am unrhyw fater arall.</p> <p><i>D.S. - Dylid rhoi'r manylion mewn ffordd sy'n dangos sut mae'r swm sy'n cael ei hawlio o dan unrhyw bennawd yn cael ei gyfrifo. (Gweler adrannau 4(2) a 31 o Ddeddf Iawndal Tir 1961.)</i></p> |  |
| <p>16. Pa swm sydd i'w dynnu allan er mwyn cwmpasu unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir sydd gan yr hawliwr sy'n gyffiniol neu'n gyfagos i'r tir o dan sylw?</p>   |  |
| <p>17. Hawliad net (h.y. cyfanswm 15 namyn 16).</p>  |  |

**DYDDIEDIG y**

**dydd o**

**200**

Llofnod yr hawliwr neu ei Gyfreithiwr

Enw a chyfeiriad y Cyfreithiwr

Cyfeiriad e-bost  
Rhif ffôn

Enw a chyfeiriad y Syrfêwr

Cyfeiriad e-bost  
Rhif ffôn

Cyf: BZ -421-

---

---

## HAWLIAD

i ateb Rhybudd i Drafod Telerau

---

Wedi iddi gael ei llenwi dylai'r ffurflen hon gael ei hanfon at

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Y Tîm Caffael Tir  
Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ